# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWYNEDD
# Medi 2009 – Awst 2010

Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion : Dewi Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1:  CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

Cadeirydd CYSAG Gwynedd
Cynghorydd Pat Larsen

**ADRAN 2:  CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Safonau Addysg Grefyddol
2.4 Y drefn hunan arfarnu
2.5 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?
2.6 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.7 Adroddiad ar Hyfforddiant Mewn Swydd
2.8 Addysg Grefyddol ac APADGOS
2.9 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3:  ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2009-10
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o’r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2009-2010. Yn ystod y flwyddyn bu i CYSAG gynghori'r Adran Addysg ar nifer o faterion gan gynnwys Y Maes Llafur Cytûn, Safonau Addysg Grefyddol, Hyfforddiant Mewn Swydd ac Addoli ar y Cyd.

Mae CYSAG Gwynedd hefyd wedi monitro'r hyn sydd wedi digwydd mewn ysgolion, ac wedi cefnogi gweithgareddau cymdeithasau cenedlaethol megis APADGOS a Chymdeithas CYSAG'au Cymru.

Hoffwn dalu teyrnged i holl aelodau CYSAG Gwynedd, a nifer o swyddogion gan gynnwys Bethan James, Glynda O'Brien a Ken Robinson am eu hymroddiad a'u cymorth yn ystod y flwyddyn. Hoffwn hefyd ddiolch i gynrychiolwyr yr holl enwadau, undebau a'r grwpiau gwleidyddol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau, a hyderaf y bydd y gwaith trylwyr a'r ymrwymiad yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cynghorydd Pat Larsen
Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2009/2010

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig yn dilyn Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

### 2.3 Safonau Addysg Grefyddol

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol trwy adolygu adroddiadau arolygiadau ysgol a thrwy dderbyn crynodeb o ddogfennau hunan arfarnu ysgolion.

**2.3.1** Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd 18 o adroddiadau arolygwyr ar ysgolion yng Ngwynedd a chyflwynwyd y rhannau canlynol o bob adroddiad i sylw CYSAG:

- enw'r ysgol
- enw'r tîm arolygu
- y cyfeiriad at Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion fel ymateb yr ysgol a'r tîm arolygu i Gwestiwn allweddol 3: *Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?*
- yr adroddiad ar Addysg Grefyddol fel ymateb yr ysgol a'r tîm arolygu i gwestiwn allweddol 1: *Pam mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?*
- unrhyw fater allweddol perthnasol

| | | |
|---|---|---|
| Nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd: | cynradd | 17 |
| | uwchradd | 1 |

## 2.3.2 Addysg Grefyddol: Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni?

Arolygwyd Addysg Grefyddol fel pwnc penodol mewn 6 ysgol gynradd.

| | **Gradd 1** Da gyda nodweddion rhagorol | **Gradd 2** Nodweddion da a dim diffygion pwysig | **Gradd 3** Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | **Gradd 4** Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig | **Gradd 5** Llawer o ddiffygion pwysig |
|---|---|---|---|---|---|
| **CA1** | | 6 | | | |
| **CA2** | 1 | 5 | | | |
| **CA3** | | | | | |
| **CA4** | | | | | |
| **Chweched dosbarth** | | | | | |
| **Cyfanswm** | 1 | 11 | | | |

Roedd yr arolygiadau yn dilyn y drefn arferol o gyfeirio at nodweddion da a rhagorol ac at ddiffygion. Ym mhob achos roedd y nodweddion da yn llawer mwy sylweddol na'r rhestr o ddiffygion. Mewn pum ysgol nodwyd nad oedd unrhyw ddiffygion arwyddocaol. Anfonwyd llythyr yn enw'r CYSAG yn llongyfarch yr ysgolion am y gwaith da o fewn y maes.

Amlygwyd cryfderau mewn nifer o ysgolion:

<u>Nodweddion rhagorol</u> (un ysgol)

- Mae gan lawer o ddisgyblion CA2 wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o arferion, seremonïau a dathliadau Cristnogaeth a hefyd rhai o grefyddau eraill y byd.
- Mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd pererindod i gredinwyr ac mae eu gwybodaeth am fannau pererindota'r crefyddau amrywiol yn rhagorol.

<u>Nodweddion da</u> (mwyafrif o ysgolion)

- Mae'r disgyblion yn wybodus wrth ddwyn i gof lawr o storiâu o'r llyfrau sanctaidd ac yn deall y negeseuon crefyddol sy'n sail iddynt. Wrth drafod llyfrau sanctaidd, mae disgyblion yn dod yn ymwybodol o sut mae'r Qur'an yn gwneud gwahaniaeth i fywyd y Mwslim, ac o bwysigrwydd y Beibl i'r Cristion a'r Torah i'r Iddew.

- Dealla'r disgyblion am bwysigrwydd pererindod a gwyddant am leoliadau megis Tyddewi, Iona, Lourdes a Bethlehem, sy'n bwysig i'r Cristion. Yn yr un modd, maent yn deall arwyddocâd y bererindod i Mecca i'r Mwslim. Trafodant yn ystyrlon sut mae taith yn medru newid pobl.

- Defnyddia'r disgyblion eu medrau dysgu a meddwl yn effeithiol iawn wrth ystyried cwestiynau sylfaenol am grefydd a bywyd, megis perthynas pobl â'i gilydd. Maent yn medru trafod yn hyderus y gwahaniaeth rhwng cymeriad a phersonoliaeth sy'n ein gwneud yn ddynol.

- Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael sylw dyledus wrth i ddisgyblion cael cyfleoedd i drafod seintiau, arweinwyr a lleoliadau crefyddol Cymru. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i ymweld ag addoldai lleol ac i holi arweinwyr crefyddol sy'n gweithio yn eu cymunedau.

- Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ysbryd ymchwilgar a chwilfrydig ac maent yn teimlo'n hyderus i godi cwestiynau o'u profiad personol a chrefyddol.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA1 yn trafod yn dda egwyddorion megis cyfeillgarwch, goddefgarwch, gofal dros eraill ac ymddygiad tuag at ei gilydd. Dealla disgyblion cA2 yn gynyddol gysyniadau megis cydwybod, maddeuant ac ufudd-dod a dangosant ymwybyddiaeth gadarn o effaith a dylanwad cred ar gredinwyr.

- Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwrpas ac ystyr dathliadau Cristnogol megis bedydd, priodas, diolchgarwch, Nadolig a'r Pasg.

<u>Diffygion (un ysgol)</u>

- Nid yw llawer o ddisgyblion CA2 yn llunio darnau digon estynedig a phersonol ar faterion sydd yn ymwneud â chrefydd.

Fel mater o drefn, rhoddir sylw i'r diffygion a nodir gan yr ysgol a gan swyddogion addysg y sir a'r ymgynghorydd dyniaethau (CYNNAL). Os ydynt yn amlygu'u hunain mewn nifer o ysgolion yna mae'r hyn a nodir yn cael dylanwad ar gynnwys y rhaglen hyfforddiant mewn swydd. Os yw'r arolygiad yn nodi bod safonau yn anfoddhaol bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu ôl arolygiad ac yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth ymgynghorol.

### 2.3.3 Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

Mae pob tîm arolygu yn adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Cyflwynwyd yr adrannau perthnasol o adroddiadau 17 ysgol i sylw aelodau CYSAG.

| | **Gradd 1**<br>Da gyda nodweddion rhagorol | **Gradd 2**<br>Nodweddion da a dim diffygion pwysig | **Gradd 3**<br>Nodweddion da yn gorbwyso diffygion | **Gradd 4**<br>Rhai nodweddion da ond diffygion mewn meysydd pwysig | **Gradd 5**<br>Llawer o ddiffygion pwysig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion cynradd** | 9 | 6 | 1 | | |
| **Ysgolion uwchradd** | 1 | | | | |
| **Cyfanswm** | 10 | 6 | 1 | | |

Roedd y cyfnodau addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Rhai o'r cryfderau a amlygwyd mewn nifer o ysgolion oedd:

- Sesiynau addoli ar y cyd oedd yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio ar elfennau ysbrydol a moesol. Cyfeiriwyd at un ysgol lle'r oedd cyfleoedd ardderchog i ddisgyblion gyfranogi mewn cynllunio a chyflwyno.

- Mae'r holl ddisgyblion yn parchu naws y sesiynau addoli ar y cyd.

- Y ffordd sensitive a gofalgar mae'r ysgol yn ymateb i wahanol gredoau'r disgyblion yn rhagorol.

- Rhaglenni Addysg Bersonol a Chymdeithasol oedd wedi'u cynllunio'n ofalus ar draws pob agwedd o waith yr ysgol sydd yn sicrhau fod datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn seiliedig ar egwyddorion a gwerthoedd clir

- Y cyfleoedd helaeth oedd yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol y disgyblion, gan greu ynddynt ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb at yr ysgol, eu hamgylchfyd a'r gymuned.

- Cyfraniad rheolaidd arweinwyr crefyddol lleol i sesiynau addoli ar y cyd yr ysgol. Gwna'r rhain gyfraniad da i ddatblygiad ysbrydol disgyblion. Mewn un ysgol roedd teuluoedd sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn ymweld er mwyn atgyfnerthu egwyddorion megis pwysigrwydd helpu eraill llai ffodus.

Nodwyd rhai diffygion mewn rhai ysgolion (tair ysgol)

- Nid yw'r weithred ddyddiol o addoli ar y cyd yn herio a chyfoethogi profiadau ysbrydol y disgyblion

- Ni lwyddir i greu'r ethos neu naws ysbrydol priodol yn ystod y sesiynau addoli ar y cyd.

### 2.3.4 Fframwaith Arolygu Newydd ESTYN

Roedd un ysgol uwchradd yng Ngwynedd yn ysgol beilot ar gyfer treialu Fframwaith Arolygu Newydd ESTYN. O Fedi 2010, bydd trefniadau arolygu'r dyfodol yn canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol:

- **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
- **Cwestiwn Allweddol 2: Pam for dda yw'r ddarpariaeth?**
- **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Ni fydd yr adroddiadau arolygu yn cyfeirio at bynciau penodol.

Cyfeiriwyd at ddatblygiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn adroddiad yr ysgol beilot fel y ganlyn:

*"Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo datblygiad profiadau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion."*

Adroddiad ar ansawdd addysg uwchradd yn Ysgol Glan y Môr (Ionawr 2010)

## 2.4 Y drefn hunan arfarnu

Mae Cwmni Cynnal wedi llunio llawlyfr ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad iddynt ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi mewn gwersi, casglu esiamplau o waith, y defnydd o iaith, sicrhau cysondeb trwy'r adran gyfan ac ar drafod â disgyblion. Cyfeirir athrawon hefyd at y saith cwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda mae'r dysgwyr yn dysgu? – bydd Addysg Grefyddol fel pwnc yn cael ei fesur o dan y cwestiwn hwn;
2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu a'r asesu?
3. Pa mor dda mae'r profiadau dysgu'n bodloni anghenion a diddordebau'r dysgwyr a'r gymuned?
4. Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r gynhaliaeth i ddysgwyr – bydd safon y ddarpariaeth ysbrydol a moesol mewn ysgol yn cael ei fesur yn erbyn y maen brawf yma?
5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
7. Pa mor effeithiol yw'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau;

Penderfynwyd yng nghyfarfod 23 Chwefror 2005 y byddai CYSAG Gwynedd yn derbyn copi o hunan arfarniad ysgolion sydd yn derbyn arolygiadau pan nad oes adroddiad penodol ar Addysg Grefyddol, yn y flwyddyn pan arolygir yr ysgol.

Derbyniwyd 11 adroddiad hunan arfarniad yn ystod y flwyddyn: uwchradd 2
cynradd 9

Mae'r adroddiad yn nodi ymateb yr ysgol i gwestiwn allweddol 1 a 3 o'r fframwaith arolygu. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion ac i nodi'r agweddau fydd yn derbyn sylw'r ysgol dros y flwyddyn nesaf. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** | | | | | **Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
| Cynradd | 1 | 7* | | | | 4 | 4 | | | |
| Uwchradd | | 2 | | | | | 2 | | | |
| Cyfansw | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| m | | | | | | | | | | |

*Derbyniwyd un adroddiad hunan arfarnu heb raddau.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- safon cyrhaeddiad y dysgwyr.
- dealltwriaeth dda'r disgyblion o'r pynciau dan sylw.
- yr ystod eang o dechnegau dysgu ac addysgu a defnyddir yn y gwersi addysg grefyddol.
- parodrwydd y dysgwyr i fynegi barn ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- gallu'r dysgwyr i ofyn, trafod ac ymateb i gwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain ac agweddau o grefydd.
- y modd y mae'r disgyblion yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol

Ymhlith yr agweddau fydd yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn nesaf mae:
- parhau i ymgyfarwyddo â gofynion y Maes Llafur Cytûn Lleol a Chwricwlwm 2008.
- sicrhau bod dimensiwn crefyddol Cymreig yn ffocws i'r ymchwiliadau crefyddol.
- cynllunio ar y cyd gyda'r dysgwyr.
- datblygu rhai sgiliau ymhellach yn dilyn hunan arfarniadau o waith y dysgwyr, e.e. ymchwilio annibynnol.
- datblygu'r elfen o fyfyrdod yn ystod yr addoli ar y cyd.

## 2.5 Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?

### Asesiadau athrawon 2009: Addysg Grefyddol CA3

| Canlyniadau CA3 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | E | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 5+ |
| | | | | | | | | | | |
| Ysgol Dyffryn Ogwen (70) | 2.9 (2) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.4 (1) | 20.0 (14) | 25.7 (18) | 34.3 (24) | 15.7 (11) | 0.0 (0) | 75.7 (53) |
| Ysgol Botwnnog (98) | 2.0 (2) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 6.1 (6) | 14.3 (14) | 35.7 (35) | 35.7 (35) | 6.1 (6) | 0.0 (0) | 77.6 (76) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle (77) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 16.9 (13) | 40.3 (31) | 36.4 (28) | 6.5 (5) | 0.0 (0) | 83.1 (64) |
| Ysgol Eifionydd (98) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 2.0 (2) | 6.1 (6) | 23.5 (23) | 34.7 (34) | 30.6 (30) | 3.1 (3) | 0.0 (0) | 68.4 (67) |
| Ysgol Y Gader (72) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 18.1 (13) | 47.2 (34) | 30.6 (22) | 4.2 (3) | 0.0 (0) | 81.9 (59) |
| Ysgol Y Berwyn (71) | | | | | | | | | | |
| Ysgol Ardudwy (54) | 1.9 (1) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 18.5 (10) | 51.9 (28) | 27.8 (15) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 79.6 (43) |
| Ysgol Friars (222) | 2.3 (5) | 0.0 (0) | 0.9 (2) | 11.3 (25) | 21.6 (48) | 35.1 (78) | 20.3 (45) | 7.7 (17) | 0.9 (2) | 64.0 (142) |
| Ysgol Tryfan (57) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 1.8 (1) | 3.5 (2) | 5.3 (3) | 28.1 (16) | 29.8 (17) | 31.6 (18) | 0.0 (0) | 89.5 (51) |
| Ysgol Glan y Môr (100) | 3.0 (3) | 0.0 (0) | 0.0 (0) | 11.0 (11) | 19.0 (19) | 31.0 (31) | 24.0 (24) | 12.0 (12) | 0.0 (0) | 67.0 (67) |
| | | | | | | | | | | |
| Gwynedd (919) | 1.5 (14) | 3.6 (33) | 3.6 (33) | 6.3 (58) | 17.3 (159) | 33.2 (305) | 26.1 (240) | 8.2 (75) | 0.2 (2) | 67.7 (622) |
| | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | |
| Cynnal (1774) | 1.1 (19) | 1.9 (33) | 1.9 (33) | 6.4 (113) | 21.4 (379) | 35.2 (624) | 22.9 (406) | 9.3 (165) | 0.1 (2) | 67.5 (1,197) |

- Canlyniadau Ysgol y Berwyn yn wallus.

Cyflwynir canlyniadau CA3 er wybodaeth yn unig. Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Nid yw'r disgyblion yn sefyll yr un profion neu'r un tasgau asesu ar draws y sir ac nid yw athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i safoni gwaith eu disgyblion gydag adrannau eraill. Eleni bydd rhai adrannau yn cael cyfle i fod yn rhan o raglen beilot (APADGOS) ac yn cyflwyno portffolios ar gyfer achrediad allanol. Mae cyrsiau HMS CYNNAL wedi rhoi cyfle i athrawon pwnc i rannu profiadau ac i gyd-safoni samplau o waith. Ar hyn o bryd nid yw'r Cynulliad yn casglu data Addysg Grefyddol CA3.

### Canlyniadau TGAU Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)

**Canlyniadau TGAU yn ôl cohort 15 oed (yn cynnwys GNVQ Rhan 1 Sylfaenol a Chanolradd)**

| Pwnc | Nifer yn sefyll | | | % A*/A | | | % A*-C | | | % A*-G | | | Sgôr Cyfartalog y pwnc | | | Sgôr Cyfartalog pynciau eraill | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 1 | 9 | 10 | 100.0 | 66.7 | 70.0 | 100.0 | 88.9 | 90.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 8.0 | 6.7 | 6.8 | 4.1 | 5.0 | 4.9 (1.9) |
| Ysgol Botwnnog | 2 | 0 | 2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 50.0 | 0.0 | 50.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 4.5 | 0.0 | 4.5 | 4.7 | 0.0 | 4.7 (-0.2) |
| Ysgol Brynrefail | 1 | 10 | 11 | 100.0 | 30.0 | 36.4 | 100.0 | 80.0 | 81.8 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 8.0 | 5.4 | 5.6 | 7.5 | 5.1 | 5.4 (-0.3) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 1 | 3 | 4 | 0.0 | 33.3 | 25.0 | 100.0 | 33.3 | 50.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 5.0 | 5.0 | 5.0 | 4.2 | 4.6 | 4.5 (0.5) |
| Ysgol Eifionydd | 2 | 17 | 19 | 50.0 | 17.6 | 21.1 | 50.0 | 64.7 | 63.2 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 5.5 | 5.0 | 5.1 | 5.1 | 4.5 | 4.6 (0.5) |
| Ysgol Y Gader | 5 | 8 | 13 | 80.0 | 37.5 | 53.8 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 6.8 | 6.3 | 6.5 | 6.0 | 5.4 | 5.6 (0.9) |
| Ysgol Y Berwyn | 8 | 18 | 26 | 37.5 | 38.9 | 38.5 | 87.5 | 83.3 | 84.6 | 100.0 | 94.4 | 96.2 | 6.3 | 5.7 | 5.8 | 6.1 | 5.6 | 5.7 (-0.1) |
| Ysgol Friars | 1 | 2 | 3 | 100.0 | 50.0 | 66.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 7.0 | 7.0 | 7.0 | 6.0 | 6.6 | 6.4 (0.6) |
| Ysgol Tryfan | 3 | 12 | 15 | 0.0 | 58.3 | 46.7 | 33.3 | 100.0 | 86.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 3.7 | 6.8 | 6.2 | 3.9 | 6.1 | 5.7 (0.5) |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 0 | 4 | 4 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 7.8 | 7.8 | 0.0 | 6.5 | 6.5 (1.3) |
| Ysgol Glan y Môr | 0 | 6 | 6 | 0.0 | 33.3 | 33.3 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 6.0 | 6.0 | 0.0 | 4.8 | 4.8 (1.2) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwynedd | 24 | 89 | 113 | 45.8 | 41.6 | 42.5 | 79.2 | 84.3 | 83.2 | 100.0 | 98.9 | 99.1 | 6.0 | 5.9 | 5.9 | 5.5 | 5.3 | 5.3 (0.6) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnal | 87 | 279 | 366 | 41.4 | 45.5 | 44.5 | 81.6 | 84.6 | 83.9 | 100.0 | 99.3 | 99.5 | 5.9 | 6.0 | 6.0 | 5.5 | 5.4 | 5.4 (0.6) |

Canlyniadau da

- 113 o ymgeiswyr o ysgolion Gwynedd – tua 8% o'r cohort.
- Mae'r niferoedd yn amrywio o 2 ddisgybl mewn un ysgol i 26 mewn ysgol arall.
- Llwyddodd 99.1% o'r ymgeiswyr i ennill gradd TGAU gydag 83.2% yn ennill gradd A*-C . Mae 42.5% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A*/A.
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 6.0 yn uwch (0.6) na'r sgôr o 5.4 yn y pynciau eraill.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis y pwnc yn ysgolion Gwynedd (B21%:M79%).
- Fodd bynnag mae canlyniadau'r bechgyn yn debyg iawn i ganlyniadau'r merched. Mae sgôr gyfartalog y bechgyn yn 6.0 o'i gymharu â sgôr gyfartalog y merched (5.9).
- Mae disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol y Gader, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Glan y Môr yn perfformio'n well mewn addysg grefyddol nag yn y pynciau eraill.
- Nid oedd ymgeiswyr o Ysgol Ardudwy nac Ysgol Tywyn eleni.
- Mae CYNNAL yn awyddus i gynnig cefnogaeth i'r adrannau canlynol:
  Ysgol Ardudwy – salwch hir dymor yr arweinydd pwnc
  Adrannau sy'n awyddus i ddenu mwy o ymgeiswyr i sefyll TGAU Astudiaethau Crefyddol

Adrannau sy'n bwriadu cyflwyno portffolios Addysg Grefyddol i safonwyr allanol eleni.

### Canlyniadau TGAU Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)

| Canlyniadau TGAU yn ôl cohort 15 oed (yn cynnwys GNVQ Rhan 1 Sylfaenol a Chanolradd) | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Nifer yn sefyll | | | % A*/A | | | % A*-C | | | % A*-G | | | Sgôr Cyfartalog y pwnc | | | Sgôr Cyfartalog pynciau eraill | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 1 | 9 | 10 | 0.0 | 22.2 | 20.0 | 100.0 | 88.9 | 90.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.0 | 2.9 | 2.8 | 4.1 | 5.0 | 4.9 (-2.1) |
| Ysgol Botwnnog | 3 | 4 | 7 | 0.0 | 50.0 | 28.6 | 33.3 | 75.0 | 57.1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 3.3 | 6.0 | 4.9 | 4.0 | 5.6 | 5.0 (-0.2) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 1 | 3 | 4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.0 | 2.7 | 2.5 | 4.2 | 4.6 | 4.5 (-2.0) |
| Ysgol Eifionydd | 5 | 28 | 33 | 0.0 | 21.4 | 18.2 | 60.0 | 57.1 | 57.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.4 | 2.4 | 2.4 | 4.9 | 5.0 | 5.0 (-2.6) |
| Ysgol Y Gader | 5 | 8 | 13 | 80.0 | 75.0 | 76.9 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 3.6 | 3.5 | 3.5 | 6.0 | 5.4 | 5.6 (-2.1) |
| Ysgol Y Moelwyn | 35 | 42 | 77 | 57.1 | 59.5 | 58.4 | 82.9 | 95.2 | 89.6 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 6.9 | 7.8 | 7.4 | 4.6 | 4.6 | 4.6 (2.8) |
| Ysgol Y Berwyn | 25 | 30 | 55 | 16.0 | 16.7 | 16.4 | 44.0 | 70.0 | 58.2 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.2 | 2.6 | 2.4 | 5.0 | 5.3 | 5.1 (-2.8) |
| Ysgol Friars | 7 | 9 | 16 | 14.3 | 44.4 | 31.3 | 42.9 | 77.8 | 62.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 2.0 | 2.7 | 2.4 | 4.5 | 5.3 | 4.9 (-2.6) |
| Ysgol Glan y Môr | 0 | 6 | 6 | 0.0 | 16.7 | 16.7 | 0.0 | 66.7 | 66.7 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 2.5 | 2.5 | 0.0 | 4.8 | 4.8 (-2.3) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwynedd | 82 | 139 | 221 | 35.4 | 36.7 | 36.2 | 65.9 | 79.1 | 74.2 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 4.3 | 4.3 | 4.3 | 4.7 | 4.9 | 4.8 (-0.5) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnal | 333 | 388 | 721 | 19.5 | 36.9 | 28.8 | 54.1 | 72.7 | 64.1 | 97.6 | 99.2 | 98.5 | 2.7 | 3.3 | 3.0 | 4.5 | 5.0 | 4.8 (-1.8) |

Canlyniadau da

- 221 o ymgeiswyr o ysgolion Gwynedd – tua 16% o'r cohort.
- Mae'r niferoedd yn amrywio o 4 disgybl mewn un ysgol i 77 mewn ysgol arall.
- Llwyddodd 100% o'r ymgeiswyr i ennill gradd TGAU gydag 74.2% yn ennill gradd A*-C . Mae 36.2% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A*/A.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis y pwnc yn ysgolion Gwynedd (B37%:M63%).
- Fodd bynnag mae canlyniadau'r bechgyn yn debyg iawn i ganlyniadau'r merched. Mae sgôr gyfartalog y bechgyn yn 4.3 o'i gymharu â sgôr gyfartalog y merched (4.3).
- Mae'n galonogol i weld bod gymaint o ddysgwyr yn dewis gwneud y cwrs byr ac yn ennill canlyniadau da.

### Canlyniadau Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol

| Canlyniadau Lefel A yn ôl cohort blwyddyn 13 wedi sefyll arholiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Nifer yn sefyll | | | % A | | | % A-C | | | % A-E | | | Sgôr Cyfartalog y pwnc | | | Sgôr Cyfartalog pynciau eraill | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 0 | 8 | 8 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 62.5 | 62.5 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 75.0 | 75.0 | 0.0 | 75.0 | 75.0 (0.0) |
| Ysgol Brynrefail | 0 | 1 | 1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 80.0 | 80.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 (-20.0) |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 0 | 1 | 1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 40.0 | 40.0 | 0.0 | 50.0 | 50.0 (-10.0) |
| Ysgol Y Berwyn | 0 | 2 | 2 | 0.0 | 50.0 | 50.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 0.0 | 110.0 | 110.0 | 0.0 | 97.5 | 97.5 (12.5) |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 1 | 1 | 2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 80.0 | 91.4 (8.6) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwynedd | 1 | 13 | 14 | 0.0 | 7.7 | 7.1 | 100.0 | 69.2 | 71.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 80.0 | 81.4 | 100.0 | 80.5 | 82.3 (-0.8) |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cynnal (G+M+C) | 9 | 111 | 120 | 22.2 | 20.7 | 20.8 | 55.6 | 72.1 | 70.8 | 88.9 | 99.1 | 98.3 | 73.3 | 86.3 | 85.3 | 83.1 | 88.4 | 88.0 (-2.7) |

- 14 o ymgeiswyr o ysgolion Gwynedd.

- Mae'r niferoedd yn amrywiol o 1 disgybl mewn dwy ysgol i 8 mewn ysgol arall.
- Mae mwy o ferched yn dewis y pwnc na bechgyn.
- Llwyddodd 100% i ennill gradd Safon Uwch gydag 71.4% yn ennill gradd A*-C. Mae 7.1% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A.
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 85.3 sy'n is (-0.8) na'r sgôr yn y pynciau eraill.

## Canlyniadau Uwch Gyfrannol Astudiaethau Crefyddol 2009

| ..Canlyniadau Lefel AS yn ôl cohort blwyddyn 12 wedi sefyll arholiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwnc | Nifer yn sefyll | | | % A | | | % A-C | | | % A-E | | | Sgôr Cyfartalog y pwnc | | | Sgôr Cyfartalog pynciau eraill | | |
| | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C | B | M | C |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | 0 | 6 | 6 | 0.0 | 16.7 | 16.7 | 0.0 | 33.3 | 33.3 | 0.0 | 83.3 | 83.3 | 0.0 | 30.0 | 30.0 | 0.0 | 28.3 | 28.3 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | 2 | 5 | 7 | 0.0 | 20.0 | 14.3 | 100.0 | 40.0 | 57.1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 40.0 | 34.0 | 35.7 | 35.0 | 36.0 | 35.7 |
| Ysgol Syr Hugh Owen | 2 | 6 | 8 | 0.0 | 16.7 | 12.5 | 0.0 | 50.0 | 37.5 | 50.0 | 100.0 | 87.5 | 10.0 | 36.7 | 30.0 | 16.0 | 38.9 | 33.9 |
| Gwynedd | 4 | 17 | 21 | 0.0 | 17.6 | 14.3 | 50.0 | 41.2 | 42.9 | 75.0 | 94.1 | 90.5 | 25.0 | 33.5 | 31.9 | 26.4 | 34.3 | 32.9 |
| Cynnal | 19 | 111 | 130 | 15.8 | 23.4 | 22.3 | 63.2 | 62.2 | 62.3 | 89.5 | 94.6 | 93.8 | 36.8 | 40.0 | 39.5 | 37.4 | 39.0 | 38.8 |

- 21 o ymgeiswyr o ysgolion Gwynedd. Mae ysgolion uwchradd bellach yn cydweithio er mwyn rhannu'r cyfrifoldeb o gyflwyno cyrsiau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol ac felly nid yw bob ysgol uwchradd yn Arfon yn cynnig yr un arlwy o gyrsiau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol.
- Mae mwy o ferched yn dewis y pwnc na bechgyn (Gwynedd B19%: M81%) ac mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn.
- Llwyddodd 90.5% i ennill gradd Uwch Gyfrannol gydag 42.9% yn ennill gradd A*-C. Mae 14.3% o'r ymgeiswyr wedi ennill gradd A.
- Cyfartaledd sgôr yn y pwnc yn 31.9 sy'n ychydig yn is (1.0) na'r sgôr yn y pynciau eraill.

## 2.6 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Gwynedd yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg.

**Blaenoriaethau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd 2008-11**
**Amcan Strategol 2 - Addysg a Phrofiadau Dysgu**
"Sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd addysg a dysgu i'w galluogi i gyflawni eu potensial".

| NOD STRATEGOL | MAES BLAENORIAETH STRATEGOL |
|---|---|
| 2.1 Galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gyflawni eu potensial addysgol llawn | 2.1.1 Darparu'r cyfleoedd addysg, hyfforddiant a sgiliau gorau i bawb |
| 2.2 Cefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion addysgol ychwanegol a phlant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig | 2.2.1 Cefnogi cynhwysiad llawn dysgwyr gydag anghenion addysgol ychwanegol a phlant a phobl ifanc dan amgylchiadau arbennig |
| 2.3 Darparu ystod eang o wasanaethau cymorth ieuenctid o safon | 2.3.1 Hyrwyddo a chydlynu datblygiadau ym maes gwasanaethau cymorth ieuenctid |

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd ac Awdurdod Addysg Môn yn darparu cefnogaeth ariannol i GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifioldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2009-10) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

### 2.6.1 Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir yn derbyn cefnogaeth gan GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Bydd yr Ymgynghorodd Dyniaethau a'r Athro/Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) yn ymweld ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen 'hawl a haeddiant'. Byddant yn cynorthwyo athrawon wrth iddynt gynllunio'u rhaglenni astudio a'u cynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Mae datblygu medrau meddwl dysgwyr ac asesu ar gyfer dysgu yn flaenoriaeth i nifer o athrawon y sir. Mae CYNNAL yn cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Mae cyfraniad yr Athro/Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a'r athro/athrawes ymgynghorol yn cyflwyno adroddiad tymhorol i sylw CYSAG. Mae'r cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith

a wneir gydag ysgolion yr AALl. Prif ffocws trafodaethau 2009-10 oedd cefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn Lleol a'r gweithgareddau dysgu a fyddai'n gymorth i athrawon ddod i farn am gyrhaeddiad eu disgyblion. Darparwyd cwrs hyfforddi ar Bobl, Cwestiynau a Chredoau ar gyfer athrawon y Cyfnod Sylfaen.

Bob tymor bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol.

**Mrs Leusa Jones– Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol**

Penodwyd Mrs Leusa Jones fel athrawes ymgynghorol rhan amser yn Hydref 2009. Bu'n weithgar yn paratoi a chynnal cyrsiau hyfforddiant i athrawon uwchradd y sir a chefnogi adrannau unigol wrth iddynt ymateb i'r maes llafur cytûn newydd ac addasu gweithgareddau dysgu eu disgyblion..

## 2.7 Hyfforddiant Mewn Swydd

### 2.7.1 Adroddiad ar hyfforddiant mewn swydd 2009-10

Fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Addysg mae CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol) yn darparu rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon yr Awdurdod. Mae'r Cynllun Strategol Addysg yn cyfeirio at bwysigrwydd y rhaglen hyfforddi fel ffordd o sicrhau bod athrawon yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau newydd, rhannu arferion da a chydweithio i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu a deunyddiau pwrpasol. Anelir at sicrhau bod y rhaglen hyfforddiant yn ymateb i anghenion ysgolion ac athrawon trwy ymgynghori gyda phenaethiaid, athrawon a thiwtoriaid proffesiynol yn yr ysgolion. Cynhelir cyfarfodydd paneli pwnc uwchradd mewn rhai ardaloedd i drafod blaenoriaethau ac i gynnig arweiniad ar y rhaglen hyfforddiant. Yn ogystal â hynny rhoddwyd sylw i flaenoriaethau'r Awdurdod, i sylwadau ESTYN, ac i sylwadau sydd yn ymddangos mewn adroddiadau arolygol.

Mae penaethiaid cynradd ac uwchradd y sir wedi cytuno i gau'r ysgolion am ddau ddiwrnod er mwyn cynnal cyrsiau hyfforddiant ysgol ganolog neu fel consortiwm. Y tiwtoriaid proffesiynol oedd yn gyfrifol am ddewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion uwchradd a'r penaethiaid oedd yn dewis y cyrsiau ar gyfer yr ysgolion cynradd.

**Cyrsiau Cynradd Ebrill 2009– Mawrth 2010**

| Enw'r cwrs | Nifer o athrawon o Wynedd |
|---|---|
| **Clwstwr –Arfon (Gwanwyn)**<br>Dysgu am 'Bobl' gyda dysgwyr dan 7 mlwydd oed. | 19 |
| **Clwstwr – Meirion/Dwyfor (Gwanwyn)**<br>Dysgu am 'Bobl' gyda dysgwyr dan 7 mlwydd oed. | 10 |
| **HADA** (cwrs Dyniaethau 5 diwrnod oedd yn cynnwys diwrnod o hyfforddiant ar 'Ymateb i ofynion y Maes Llafur Cytûn') | 8 |

**Cyrsiau Uwchradd Ebrill 2009– Mawrth 2010**

| Enw'r Cwrs | Nifer o athrawon o Wynedd |
|---|---|
| **Consortiwm – Arfon (Hydref) :** Addysg Grefyddol a'r sgiliau hanfodol. | 6 |
| **Consortiwm - Môn (Hydref) :** Addysg Grefyddol a'r sgiliau hanfodol. | 10 |
| **Consortiwm – Meirion Dwyfor (Hydref) :** Addysg Grefyddol a'r sgiliau hanfodol. | 8 |
| **Consortiwm - Arfon a Môn (Gwanwyn)** Asesiadau athrawon CA3 gan roi pwyslais ar gynllunio aseiniadau | 10 |
| **Consortiwm - Meirion Dwyfor (Gwanwyn)** Llunio meysydd llafur a chynlluniau gwaith yn sgil y fframwaith newydd | 9 |

**2.7.2 Hyfforddiant ac ymweliadau arbennig dan nawdd CYSAGau Gwynedd a Môn**
Ni chynhaliwyd cynhadledd HMS i athrawon ac aelodau Gwynedd a Môn yn ystod 2009-10.

**2.7.3 Cyrsiau HMS 2010-11**

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw penaethiaid cynradd wrth iddynt lunio'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Cefnogi dysgwyr CA2 i wneud cynnydd yn eu sgiliau addysg grefyddol
- Asesu ar gyfer dysgu yn y Dyniaethau
- Athroniaeth i Blant (Lefel 1) – cwrs 2 ddiwrnod.
- Cwrs trawsgwricwlaidd: Dyniaethau ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Gweithio gyda phartneriaid

Cynigiwyd y cyrsiau canlynol i sylw'r tiwtoriaid proffesiynol uwchradd a'r paneli pwnc wrth iddynt lunio rhaglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu hathrawon:

- Pa mor dda yw ein harferion? Anelu at Ragoriaeth
- Ymateb i anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr
- Defnyddio TGCh i ddatblygu sgiliau pwnc a sgiliau TGCh
- Ymateb i bynciau llosg yn yr ystafell ddosbarth
- Datblygu gweithgareddau trawsgwricwlaidd.

## 2.8 Addysg Grefyddol ac APADGOS

Mae APADGOS wedi sefydlu rhaglen beilot yn 2009-10 er mwyn safoni asesiadau athrawon CA3. Mae dwy ysgol uwchradd o Wynedd a dwy ysgol uwchradd o Ynys Môn wedi bod yn rhan o'r cynllun peilot.

Mae APADGOS hefyd yn datblygu canllawiau i gynorthwyo athrawon: wrth iddynt ddod i farn am gyrhaeddiad eu disgyblion. Gwahoddwyd grŵp o athrawon y Cyfnod Sylfaen i ddod at ei gilydd hefyd er mwyn adnabod arferion dysgu ac addysgu da mewn perthynas â 'Phobl, Cwestiynau a Chredoau'. Mae athrawon o Wynedd wedi cyfrannu samplau o waith disgyblion i sylw'r swyddog pwnc.

## 2.9 Swyddogaeth CYSAG

### 2.9.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 Y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac i ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

Dosbarthwyd copi o 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008) i'r aelodau.

### 2.9.2 Defnydd o arweinwyr crefyddol lleol

Yn unol â chais a wnaed yng nghyfarfod Haf 2010, anfonwyd holiadur i bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â'r defnydd a wneir o arweinwyr crefyddol yn yr ysgolion Dychwelwyd 10 allan o'r 14 holiadur a danfonwyd. Roedd y mwyafrif o'r ysgolion yn datgan eu bod yn:

- cynnal gwersi arbennig,
- ymweld â chapeli ac eglwysi
- gwahodd arweinwyr crefyddol i'r ysgol
- gwahodd cynrychiolwyr o wahanol elusennau i'r ysgol

Roedd gweithwyr ieuenctid Cristnogol yn cynnal gweithgareddau mewn rhai ardaloedd.

### 2.9.3 Penderfyniadau

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASWUT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2009-10

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | | |
|---|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | - | Mr Wyn Meredith |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | - | Mrs Ruth Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | - | Mr Gwyn Hefin Jones |
| Yr Eglwys yng Nghymru | - | Parch Robert Townsend |
| Undeb yr Annibynwyr | - | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Gatholig | - | Mrs Eirian Bradley Roberts |

### Athrawon

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | - | Mr Paul M Jones |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | - | Mr Noel Dyer |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau | - | Miss Miriam Williams |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | - | Mr Euron Hughes |
| Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr | - | *disgwyl enwebiad* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon | - | Ms Elisabeth Roberts |

### Aelodau Lleol

**Y Cynghorwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Selwyn Griffiths | } | Plaid Cymru |
| Pat Larsen **(Cadeirydd)** | } | |
| Huw Edwards **(Is-gadeirydd)** | } | |
| Dafydd W Roberts | } | Annibynnol |
| Guto Rhys Thomas | } | |
| Aeron Jones | } | Llais Gwynedd |
| Stephen Churchman | } | Rhyddfrydwyr Democrataidd |

**Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor
W Tudor Owen
John Gwilym Jones

**Aelodau Cyfetholedig (dibleidlais)**

- Mr Rheinallt Thomas
- Y Parch Gwyn Rhydderch
- Y Parch Aled Davies

### 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2009-2010

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2009 - 2010 cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dri achlysur:

14 Hydref 2009
10 Chwefror 2010
30 Mehefin 2010

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 14 Hydref 2009**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2008/2009
- Safonau CA3 a chanlyniadau Arholiadau TGAU a Safon Uwch 2009
- Arolygiadau ysgolion
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Llangollen ar 24 Mehefin 2009
- Gohebiaeth

**b) Cyfarfod 10 Chwefror 2010**

- Arolygiadau ysgolion
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth: cyflwyniad gan bennaeth Ysgol Llanaelhaearn.
- Adroddiad blynyddol (terfynol) CYSAG Gwynedd 2008/9
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Rhondda Cynon Taf ar 13 Tachwedd 2009
- Gohebiaeth

**c) Cyfarfod 30 Mehefin 2010**

- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Defnydd o Arweinwyr Crefyddol Lleol
- Arolygiadau ysgolion
- Hunan arfarniadau ysgolion
- Adroddiad yr Ymgynghorydd Dyniaethau
- Arolwg ar ran Cymdeithas GYSAGau Cymru
- Prosiect AtGyfnerthu
- Gŵyl Addysg Grefyddol: Mawrth 2011
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Abertawe ar 18 Mawrth 2010.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol :

- Mr Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)
- Mr Wyn Meredith (CYSAG Gwynedd)
- Mr Aeron Jones (CYSAG Gwynedd)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Dewi Jones, Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion
Mr Ken Robinson, Swyddog Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Leusa Jones, Athrawes Ymgynghorol Addysg Grefyddol rhan amser.
Mrs Glynda O'Brien, Uned Bwyllgorau, Gwasanaeth Democratiaeth, sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Swyddfa Addysg, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH.

### 3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

Y Pwyllgor Pwnc Addysg, Diwylliant a Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc
Ysgolion Awdurdod Addysg Gwynedd
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS)
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor
Cymdeithas CYSAGau Cymru
Gwefan Cyngor Sir Gwynedd